Gweledigaeth ar gyfer y Stryd Fawr yng Nghymru

Uchelgais, Gweithredu, Cyflawni

Hydref 2012

Ceidwadwyr Cymreig | Welsh Conservatives

Cynhyrchwyd a hyrwyddwyd gan Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru,
Anthony Pickles Tŷ Hywel Bae Caerdydd CF991NA

Cynnwys

Adfywio'r Stryd Fawr – Cyflwyniad 1

Gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig 2

Uchelgais 3

Pwy sy'n rheoli'r Stryd Fawr? 4

Siarter y Stryd Fawr 5

Rheolwyr Canol Trefi 7

Y Gweinidog a enwebwyd i fod yn gyfrifol 8

'Strategaeth ar gyfer y Nos' 9

Ardrethi Busnes 10

Ardrethi Busnes - Adduned Maniffesto 2011 11

Ardrethi Busnes – Yr un amodau i bawb 12

Cymorth Caledi 13

Siopau Elusen 14

Mynediad i'r Stryd Fawr 15

Hygyrchedd – Siarter ar gyfer y Stryd Fawr 16

Cynlluniau Parcio am Ddim 17

Adroddiadau Parcio Blynyddol - Tryloywder 18

Gwelliannau Trafnidiaeth Cynaliadwy 19

Cynllunio 20

'Stryd Fawr yn Gyntaf' 22

Ymchwil i Ddatblygiadau ar Gyrion Trefi 23

Cynlluniau Datblygu Lleol 24

Stryd Fawr 'Defnydd Cymysg' 25

Casgliad 26

Atodiadau 28

Adfywio'r Stryd Fawr

Mae gan Gymru draddodiad cymunedol hir a balch ac mae stryd fawr fywiog yn allweddol i sicrhau parhad cymunedau cynaliadwy yng Nghymru'r 21ain ganrif. Mae adfywio canol trefi yn gyfle unigryw i adfywio rhanbarthau cyfan, gan ddarparu hwb economaidd a thwf. Mae'n rhaid i'r stryd fawr gynnig cyfle i gymunedau allu siopa'n lleol ond mae'n rhaid iddynt fynd ymhellach na hyn a gweithredu fel sbardun ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.

Mae'r stryd fawr yn nhrefi Cymru wedi gweld dyddiau gwell. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae nifer yr ymwelwyr â chanol ein trefi wedi gostwng un mewn pump. Mae'r hinsawdd economaidd anodd wedi gorfodi llawer o siopau lleol i gau gan adael adeiladau gwag sy'n dadfeilio ar hyd y stryd fawr.

Mae'r stryd fawr yng Nghymru yn cael trafferth i barhau'n berthnasol. Mae'r cynnydd mewn siopau ar y we a datblygiad canolfannau siopa ar gyrion trefi yn fygythiad sylweddol i'r stryd fawr. Mae cyfradd siopau gwag cymunedau Cymru wedi codi flwyddyn ar ôl blwyddyn, a'r gyfradd dechrau busnesau newydd yn dioddef ac yn gyson is na chyfartaledd y DU.

Ychydig a wnaed i fynd i'r afael â dirywiad y stryd fawr yng Nghymru. Mae sefydliadau busnes, cymunedau a sefydliadau lleol wedi bod yn hallt eu beirniadaeth gan eu bod yn teimlo bod adfywio'r stryd fawr wedi'i wthio i waelod yr agenda yn llawer rhy aml, neu wedi'i anghofio amdano'n llwyr.

Cyhoeddodd Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol adroddiad ar Adfywio Canol Trefi ym mis Ionawr 2012. Derbyniodd Llywodraeth Cymru fwyafrif y cynigion ym mis Mawrth 2012. Ond er ei bod wedi derbyn y cynigion, ychydig a gyflawnwyd hyd yn hyn. Yn ddi-os, mae angen gweithredu ar frys er mwyn adfywio ein stryd fawr a hybu twf economaidd.

Gweledigaeth y Ceidwadwyr Cymreig

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld stryd fawr brysur, gyda busnesau lleol ffyniannus a chyfraniad cadarnhaol gan y gymuned. I gyflawni hyn mae angen trefniadau rheoli, strategaeth a chyfeiriad effeithiol arnom i'r stryd fawr yng Nghymru.

Dyma'r pedair brif thema allweddol a nodir yn y papur hwn:

1. **Rheoli'r Stryd Fawr** – Mae rheoli'r stryd fawr yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer adfywio. Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw darparu'r fframwaith strategol cyffredinol a fydd yn arwain awdurdodau lleol yn eu hymdrechion i ysgogi adfywiad ar y stryd fawr.

2. **Ardrethi Busnes** - Yn yr hinsawdd economaidd sydd ohoni mae busnesau yn cael trafferth i oroesi. Mae rhyddhad ardrethi busnes yn gyfle i gefnogi busnesau a hybu twf economaidd.

3. **Hygyrchedd y Stryd Fawr** – Mae materion trafnidiaeth yn ystyriaeth allweddol ar gyfer adfywio'r stryd fawr.

4. **Cynllunio'r Stryd Fawr** – Mae'r polisi cynllunio'n dylanwadu ar gyfansoddiad y stryd fawr yn ogystal â datblygiadau ar gyrion trefi.

Uchelgais

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am sicrhau newid gwirioneddol ar gyfer y stryd fawr. Er mwyn mesur y newid hwn mae'n bwysig nodi'r prif dargedau ar gyfer adfywio'r stryd fawr. Dylai Llywodraeth Cymru geisio cyflawni'r prif dargedau canlynol*:

Prif Dargedau

1. **Cyfraddau Eiddo Gwag** – Mae gan Gymru gyfraddau uchel o eiddo gwag (18.5%) – sy'n uwch na chyfartaledd y DU o 14.6%. Erbyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016 rydym am weld y cyfraddau hyn wedi gostwng i fod yn debyg i gyfartaledd y DU neu'n is na hynny.

2. **Cyfraddau dechrau busnes** – Yn ystod 2010 roedd cyfraddau dechrau busnes yng Nghymru yn 8.5% sef yr ail isaf o holl wledydd a rhanbarthau'r DU. Roedd cyfradd dechrau busnes y DU yn 10.2%. Erbyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016 rydym am wedl y gyradd hon wedi codi i fod yn debyg i gyfartaledd y DU neu'n uwch na hynny.

3. **Cyfradd parhad busnes** – Roedd y gyfradd parhad busnes pum mlynedd ar gyfer busnesau a sefydlwyd yn 2005 ac a oedd yn dal mewn grym yn 2010 yn 44% yng Nghymru, yr un peth â chyfradd parhad y DU. Erbyn etholiad nesaf y Cynulliad Cenedlaethol yn 2016 rydym am weld y gyfradd parhad yn uwch na chyfartaledd y DU.

   Gogledd Iwerddon oedd â'r gyfradd parhad pum mlynedd uchaf, sef 54%. Nid oes rheswm pam na ddylai Cymru geisio efelychu Gogledd Iwerddon gan geisio sicrhau cyfradd parhad pum mlynedd o dros 50% erbyn 2016.

4. **Nifer yr ymwelwyr** – Mae cyfraddau'r ymwelwyr sy'n mynd i drefi yn bryder mawr yng Nghymru. Er y bu cynnydd o 4% ers y llynedd mae'n rhaid i ni barhau i godi'r duedd hon.

5. **Digwyddiadau** – Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld y Cynulliad Cenedlaethol yn cynnal pump digwyddiad 'stryd fawr' bob blwyddyn a fydd yn yn dod â sefydliadau busnes, busnesau lleol ac awdurdodau lleol at ei gilydd. Dylai'r digwyddiadau hyn gael eu cynnal ym mhob cwr o Gymru.

* Yr holl ystadegau'n gywir yn Hydref 2012

Pwy sy'n rheoli'r Stryd Fawr?

Mae rheoli'r stryd fawr yn effeithiol yn hanfodol ar gyfer adfywio a thwf economaidd. Mae angen strategaeth gydlynol ar y stryd fawr yng Nghymru gyda chynllunio a rheoli cydgysylltiedig er mwyn cystadlu â datblygiadau ar gyrion trefi sy'n cael eu rheoli'n broffesiynol a busnesau ar y we.

Mae mater rheoli'r stryd fawr yn tynnu ein sylw at wahaniaeth pwysig rhwng rôl Llywodraeth Cymru a rôl pob awdurdod lleol.

- Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru bennu'r cyd-destun polisi a darparu fframwaith adfywio strategol cenedlaethol cyffredinol.

- Gall cymunedau lleol ddarparu arweiniad lleol a chyflwyno mentrau sydd wedi'u teilwra i'w hardaloedd. Mae yna 116 o ganol trefi yng Nghymru, pob un â chynllun, pwynt gwerthu unigryw a strwythur busnes gwahanol. Nid oes un ateb sy'n addas i bawb wrth adfywio'r stryd fawr a chyfrifoldeb awdurdodau lleol felly yw datblygu'r fenter orau ar gyfer eu hardal hwy.

Nid yw'r system gyfredol yn glir ynglŷn â sut i reoli'r stryd fawr ac nid oes ymgysylltu â chymunedau lleol. Bu cyfraniad rhanddeiliaid yn y gwaith o adfywio'r stryd fawr yn arbennig o anghyson dros yr 20 mlynedd diwethaf ac mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi dweud mai prin fu'r cyfathrebu a'i fod ar y gorau yn dameidiog[1].

Mae polisi adfywio'r stryd fawr wedi bod yn anghyson sy'n golygu ei bod hi bron yn amhosibl cynllunio ar gyfer dyfodol ein stryd fawr ac ar gyfer adfywio cynaliadwy hirdymor. Mae'n amlwg bod angen gweledigaeth strategol gyson a chydlynol ar Gymru i adfywio'r stryd fawr.

[1] *Comisiwn Dylunio Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.6

Siarter y Stryd Fawr

Mae'n rhaid i ni sefydlu 'Siarter y Stryd Fawr' i roi canllawiau i awdurdodau lleol, busnesau lleol a chymunedau lleol ar ddatblygu eu dulliau o reoli'r stryd fawr.

Rhaid wrth weledigaeth glir a strategaeth gyffredinol wedi'u hyrwyddo gan Lywodraeth Cymru os am adfywio'r stryd fawr yn llwyddiannus. Dyma ddywedodd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru (CREW): "*a Welsh national policy and implementation programme to arrest the on-goning decline of town centres is urgently required*"[2].

Mae awdurdodau lleol ar hyd a lled Cymru wedi datblygu, neu wrthi'n datblygu, rhyw fath o strategaeth adfywio. Mae gan lawer o ardaloedd gynlluniau gweithredu penodol ar gyfer eu trefi, er enghraifft 'Cynllun Gweithredu Canol Tref Bargoed', 'Buddsoddi yn y Barri' a 'Y Rhyl yn Symud Ymlaen'.

Er bod y strategaethau hyn yn werthfawr mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru'n darparu'r weledigaeth gyffredinol ar gyfer adfywio.

Byddai Siarter y Stryd Fawr yn amlinellu pum egwyddor allweddol a fyddai'n darparu arweiniad a chyfeiriad i grwpiau cymunedol, busnesau lleol ac awdurdodau lleol ym maes adfywio'r stryd fawr.

Amlinellir Siarter y Stryd Fawr ar y dudalen nesaf.

[2] *CREW, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.2.

Siarter y Stryd Fawr

1. **Defnyddio grym y we** – Mae'r Ceidwadwyr Cymreig yn cydnabod pwysigrwydd y stryd fawr yng Nghymru ar gyfer yr economi leol a rhanbarthol ac o ran ymgysylltu â'r gymuned ac yn gymdeithasol. Mae datblygiad y we wedi cael effaith sylweddol ar arferion siopa ac wedi profi'n her i'r stryd fawr draddodiadol. Mae'n rhaid i'r stryd fawr yng Nghymru ddefnyddio'r we i gysylltu â'u cymuned ac i ddatblygu busnes.

2. **Ymgysylltu â'r gymuned** – Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn bod ymgysylltu â chymunedau lleol yn hanfodol ar gyfer sicrhau llwyddiant y stryd fawr ac mae'n rhaid annog hyn drwy ffurfio timau'r stryd fawr sy'n cynnwys busnesau, Cynghorwyr a thrigolion lleol. Bydd y timau hyn yn cael eu galw'n 'Tîm y Dref', ac yn gweithredu fel ffocws ar gyfer ymgysylltu a datblygu cyfranogiad ar y stryd fawr. Credwn y dylai'r gymuned leol fod yn ganolog i waith adfywio'r stryd fawr a'r agenda leoliaeth.

3. **Hybu economi'r stryd fawr** – Mae'r hinsawdd economaidd anodd wedi gorfodi llawer o siopau lleol i gau gan adael adeiladau gwag sy'n dadfeilio ar hyd ein strydoedd. Mae'n rhaid cefnogi busnesau lleol drwy ddarparu rhyddhad ardrethi busnes a threfniadau cydgysylltu a rheoli gwell.

4. **Hygyrchedd y stryd fawr** – Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn bod hygyrchedd yn elfen ganolog i adfywio'r stryd fawr. Mae'n rhaid i'r stryd fawr yng Nghymru ddarparu ar gyfer siopwyr yr 21ain ganrif lle mae hwylustod yn allweddol. Rydym yn cefnogi mentrau symudedd yng nghanol trefi, mynediad i bobl anabl a thrafnidiaeth gynaliadwy.

5. **Cynlluniau cynaliadwy ar gyfer y stryd fawr** – Mae cynllunio yn ganolog i sicrhau llwyddiant y stryd fawr ac mae'n rhaid i ganllawiau cynllunio adlewyrchu natur gyfnewidiol y sector manwerthu. Mae'n rhaid i'r stryd fawr draddodiadol addasu i'r newid mewn arferion siopa a datblygu 'defnydd cymysg' gwirioneddol gyda lleoliadau manwerthu, hamdden, adeiladau cymunedol, gwasanaethau, tai a swyddfeydd yn nodweddion parhaol ar y stryd fawr.

Rheolwyr Canol Trefi

Dylai pob awdurdod lleol gael Rheolwr Canol Trefi penodol i sicrhau bod cynlluniau adfywio'r stryd fawr yn cael eu cydgysylltu a'u cyfeirio'n briodol.

Mae gan 14 o awdurdodau lleol Cymru Reolwr Canol Trefi ar hyn o bryd. Mae gan Reolwr Canol Trefi waith pwysig i'w wneud o ran datblygu gweledigaeth glir i ganol trefi ac maent yn bwynt cyswllt a chydgysylltu hanfodol.

Mae Rheolwyr Canol Trefi yn helpu i drefnu gwaith marchnata a brandio'r stryd fawr. Maent hefyd yn cynrychioli barn rhanddeiliaid lleol i sefydliadau allanol, yn ogystal â bod yn bwynt cyswllt cyntaf i'r cyhoedd ar bopeth sy'n ymwneud â chanol trefi.

Mae Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd wedi pwysleisio'r angen am rôl gref i Reolwyr Canol Trefi"[3].

Ers 2008, mae Pen-y-bont ar Ogwr wedi cyflogi rheolwr canol tref ac mae'r Cyngor yn gweld y swydd fel cyswllt allweddol â'r gymuned fusnes yn y dref"[4].

[3] *Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.1.

[4] *Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.2.

Cyfrifoldeb Gweinidogion

Sicrhau bod Gweinidog/Dirprwy Weinidog cyfredol wedi'i enwebu i fod yn gyfrifol am y stryd fawr. Byddai unigolyn â chyfrifoldeb o'r fath yn ddolen gyswllt a chydgysylltu clir ac yn sicrhau cydnabyddiaeth gan Weinidog i'r stryd fawr yng Nghymru.

Mae llawer o sefydliadau busnes ac awdurdodau lleol wedi galw am benodi Gweinidog Cabinet penodol i fod yn gyfrifol am y stryd fawr. Y pryder yw: "*if it is everyone's responsibility in Cabinet, it can also become no-one's responsibility*"[5].

Ar hyn o bryd, mae adfywio'r stryd fawr yn berthnasol iawn i lawer o adrannau gwahanol ac mae'n rhaid cymryd mesurau i gydgysylltu'r broses o wneud penderfyniadau a chyfrifoldebau gweinidogion yn well.

Dyma oedd barn Consortiwm Manwerthu Prydain: *"it is paramount that the Assembly designate town centre regeneration to one Department and one Assembly Minister"*[6].

Yn yr Alban mae ymrwymiad i ddatblygu Strategaeth Dinasoedd newydd dan arweiniad y Dirprwy Brif Weinidog fel 'Gweinidog Dinasoedd'.

[5] *Boots Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.3.
[6] *Consortiwm Manwerthu Prydain, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.2.

‘Strategaeth ar gyfer y Nos’

Datblygu ‘Strategaeth ar gyfer y Nos’ i’r stryd fawr i sbarduno’r economi gyda’r nos a sicrhau diogelwch ar y stryd fawr.

Mae’n bwysig ystyried economi’r stryd fawr gyda’r nos gan ei fod yn gallu bod yn gaffaeliad gwerthfawr i’r economi leol. Mae diwylliant siopa 24 awr yn bodoli bellach, felly mae’n rhaid i’r stryd fawr addasu i’r amgylchedd siopa modern hwn.

Mae’n rhaid i’r stryd fawr ddatblygu defnydd lluosog hefyd er mwyn addasu i arferion siopa sy’n newid; mae’r ffordd mae’r defnydd a wneir o’r stryd fawr yn newid o’r dydd i’r nos yn bwysig.

Mae’n amlwg fod angen cynllunio’n strategol ar gyfer economi’r stryd fawr gyda’r nos gan fod enw gwael yn y nos yn gallu amharu’n andwyol ar fywyd y stryd fawr yn ystod y dydd. Yn aml, mae’r stryd fawr yn cael trafferth i greu economi hyfyw gyda’r nos ac mae angen mwy o gyfleusterau adloniant sylweddol.

Mae Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi yn pwysleisio pwysigrwydd economi gyda’r nos ac wedi datgan y dylai Llywodraeth Cymru “*plan for the night-time economy as a tool for economic growth and as an additional dimension to the 21st Century town centre”.*[7]

[7] *Ymchwiliad i Adfywio Canol Trefi: Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi ac UK BIDs, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* Medi 2011, tud.4

Ardrethi Busnes

Yr enw cyffredin ar ardrethi annomestig yw ardrethi busnes sef treth eiddo sy'n cael ei dalu ar eiddo annomestig. Dyma'r ffordd mae busnesau a defnyddwyr eiddo annomestig eraill yn cyfrannu tuag at gostau gwasanaethau awdurdodau lleol. Mae ardrethi busnes yn ffynhonnell drethi sylweddol – gan ddod â bron i £1 biliwn o refeniw i ariannu gwasanaethau lleol yng Nghymru bob blwyddyn[8].

Caiff ardrethi busnes eu cyfrif drwy gymryd Gwerth Ardrethol eiddo a'i luosi gyda'r 'lluosydd' ardrethi busnes ar gyfer y flwyddyn dan sylw. Mae Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn prisio eiddo at ddibenion ardrethi annomestig ac yn pennu'r Gwerthoedd Ardrethol. Mae Llywodraeth Cymru'n pennu'r lluosydd bob blwyddyn: ni ellir ei gynyddu mwy na mynegai prif manwerthu'r mis Medi blaenorol.

Mae ardrethi busnes yn faich anferth ar fusnesau bach a chanolig, sef asgwrn cefn economi Cymru, a 99% o stoc busnes Cymru. Ardrethi busnes yw un o'r prif resymau pam nad yw busnesau'n gallu fforddio masnachu ar y stryd fawr.

Mae'r un cynllun rhyddhad ardrethi dros dro yn weithredol yng Nghymru ag yn Lloegr. Rhwng 1 Hydref 2010 a 31 Mawrth 2013 mae trothwyon y rhyddhad ardrethi wedi'u cynyddu dros dro, ac ni fydd busnesau â gwerth ardrethol o hyd at £6,000 yn talu ardrethi a bydd y rhai â gwerth ardrethol o rhwng £6,001 a £12,000 yn derbyn rhywfaint o ryddhad. Mae dros 4 o bob 10 busnes yng Nghymru yn derbyn Rhyddhad Ardrethi Busnes Busnesau Bach.

Cafodd ardrethi busnes sylw yn Adolygiad Mary Portas o'r Stryd Fawr (Rhagfyr 2011) ac adroddiad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol ar Adfywio Canol Trefi (Ionawr 2012). Comisiynodd Llywodraeth Cymru adroddiad ar ardrethi busnes yng Nghymru dan arweiniad yr Athro Brian Morgan a'i gyhoeddi ym mis Mai 2012. Roedd yr adroddiad hwn yn gwneud 19 argymhelliad yn cynnwys datganoli ardrethi busnes, sicrhau bod ardrethi'n cael eu cadw'n lleol ac ymestyn cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach y tu hwnt i fis Mawrth 2013. Ar ddiwedd Hydref 2012 nid oedd yr argymhellion hyn wedi'u rhoi ar waith.

[8] *Adolygiad Ardrethi Busnes Cymru*, Mai 2012

Rhyddhad Ardrethi Busnes – adduned 2011

Byddwn yn cadw'n hadduned a wnaed yn ein maniffesto yn 2011 i gael gwared ar ardrethi busnes i fusnesau bach â gwerth ardrethol o hyd at £12,000, a darparu rhyddhad sy'n graddol leihau i'r rhai â gwerth ardrethol o hyd at £15,000[9].

Mae ardrethi busnes yn faich anferth ar fusnesau bach a chanolig ac mae'r rhyddhad ardrethi busnes wedi'i ddisgrifio fel "achubiaeth yn ystod y dirywiad economaidd presennol"[10].

Byddai'r polisi'n ysgogi'r sector preifat yng Nghymru gan ryddhau busnesau bach a chanolig i ganolbwyntio ar ehangu eu busnes a hyfforddi staff. Pe bai pob busnes bach a chanolig yn recriwtio un person ychwanegol gallem ddileu diweithdra yng Nghymru[11].

Mae ardrethi busnes yn parhau i gael ei ystyried fel un o'r prif resymau pam nad yw busnesau'n gallu fforddio masnachu ar y stryd fawr. Mae Cymru'n wlad o fusnesau bach a chanolig ac mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod ni'n cefnogi'r sector pwysig hwn o'r economi.

[9] *Maniffesto'r Ceidwadwyr Cymreig: Llais Newydd dros Gymru,* 2011
[10] *Adolygiad o'r Polisi Ardrethi Busnes – Cais am Dystiolaeth*, Mawrth 2012, tud.3
[11] *FSB Cymru Maniffesto Etholiad y Cynulliad* 2011

Ardrethi Busnes – yr un amodau i bawb

Comisiynu ymgynghoriad manwl ar y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru i fusnesau bach a chanolig a fyddai'n golygu bod Cymru'n cyd-fynd â Lloegr a'r Alban. Mae'n rhaid i degwch fod yn egwyddor ganolog yn system ardrethi busnes Cymru.

Mae'r cyngor lleol yn defnyddio'r lluosydd wrth gyfrif bil ardrethi busnes ac yn nodi'r ganran, neu geiniogau yn y bunt, o'r gwerth ardrethol sydd i'w talu mewn ardrethi busnes.

Y lluosydd dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13 yw 0.452. Mae tabl 1.1 yn Atodiad 8 yn amlinellu'r lluosydd ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Yn wahanol i Loegr a'r Alban, nid oes gan Gymru luosydd gwahanol ar gyfer busnesau bach a chanolig.

Mae lluosydd Cymru'n berthnasol i bob busnes ac felly nid yw'n ystyried maint y busnes. Busnesau bach a chanolig yw asgwrn cefn economi Cymru, a nhw yw 99% o stoc busnes Cymru; mae'n rhaid i ni gefnogi ein busnesau bach a chanolig a sicrhau tegwch yn y system ardrethi busnes.

Mae'n rhaid cael ymgynghoriad manwl ar y posibilrwydd o rannu lluosydd Cymru ar gyfer busnesau bach a chanolig a fyddai'n sicrhau bod Cymru yn cyd-fynd â Lloegr a'r Alban.

Gallai'r polisi hwn greu rhwng £9.1miliwn a £9.4 miliwn. Mae rhagor o fanylion yn Atodiad B.

Cymorth Caledi

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ariannu canran uwch o gymorth caledi er mwyn annog awdurdodau lleol i ddarparu arian i fwy o achosion.

Mae gan Awdurdodau Bilio bwerau disgresiwn i roi cymorth mewn achosion o galedi ariannol. Mae Llywodraeth Cymru'n talu 75% o gost ariannu'r cymorth hwn, gyda'r awdurdod lleol yn talu'r 25% arall. Busnesau sy'n cyflwyno achosion o gymorth caledi a dylid ystyried pob un yn ôl ei haeddiant ei hun.

Mae nifer yr achosion o gymorth caledi y darparwyd arian iddynt gan bob awdurdod lleol yn amrywio ond mewn llawer o awdurdodau dim ond i un neu ddau achos y darparwyd arian, er enghraifft, yn Rhondda Cynon Taf, dim ond un achos o gymorth caledi a ganiatawyd ers 2008[12].

Mae cymorth caledi yn gallu bod yn achubiaeth i fusnesau bach, ond mae'r system gyfredol lle mae awdurdodau lleol yn gorfod talu 25% o'r gost yn golygu nad oes fawr o gymhelliant i awdurdodau ddefnyddio'r dull cymorth hwn yn amlach.

Pe bai Llywodraeth Cymru yn ariannu canran uwch o'r cymorth gallai hyn annog awdurdodau lleol i ddarparu cymorth caledi yn amlach. Gallai Llywodraeth Cymru ariannu 90% o'r cymorth a byddai'r awdurdod lleol yn ariannu 10% o'r cymorth.

[12] *Rhyddid Gwybodaeth*, Medi 2012

Siopau Elusen

Sicrhau bod rheolau tecach yn cael eu cyflwyno ar gyfer siopau elusen.

Mae gan siopau elusen rôl allweddol ar y stryd fawr ac maent yn ganolog i wneuthuriad ein stryd fawr. Ers 1990, mae eiddo sy'n gartref i elusen yn cael rhyddhad gorfodol o 80%. Y ddadl oedd ei bod hi'n well gosod siop i elusen na gadael y siop yn wag, ond mae llawer o sefydliadau'n feirniadol o'r rhyddhad mae siopau elusen yn ei gael, gan ddadlau bod hyn ar draul busnesau lleol.

Mae'n rhaid rhoi'r cyfle i sicrhau yr un amodau i bawb er mwyn cefnogi parhad busnesau bach a chanolig.

Ni all siopau elusen hawlio'r rhyddhad ardrethi[13], ond nid oes diffiniad na chyfres glir o feini prawf ar gyfer y datganiad hwn, oni bai eu bod yn gwerthu nwyddau a roddwyd iddynt yn gyfan gwbl neu'n bennaf. Mae'r diffyg eglurder hwn yn ei gwneud hi'n anodd i elusennau gydymffurfio â'r rheolau ac i awdurdodau lleol eu gweithredu. Mae siopau elusen yn gallu gwerthu cynhyrchion newydd gan dalu llai o ardrethi na'r manwerthwr lleol. Mae'n rhaid i ni sicrhau tegwch yn y system ardrethi busnes.

Mae'n rhaid comisiynu ymgynghoriad manwl gydag asesiad cynhwysfawr o effaith er mwyn gweld pa nwyddau mae siopau elusen yn gallu eu gwerthu. Mae'n rhaid i ni sicrhau yr un amodau i bawb gan gynnal presenoldeb pwysig y trydydd sector ar y stryd fawr yr un pryd.

[13] *Ardrethi Annomestig: Canllawiau ar Ryddhad Ardrethi ar gyfer Elusennau a Chyrff Dielw Eraill,* Hydref 2004, tud.16

Mynediad i'r Stryd Fawr

Nid yw sawl stryd fawr yn diwallu anghenion siopwyr yr 21ain ganrif. Mae cyfleusterau parcio gwael, taliadau parcio uchel, tagfeydd a chyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus annigonol i gyd yn cadw cwsmeriaid o'r stryd fawr. Gyda siopa ar-lein ar gynnydd a pharciau manwerthu ar gyrion trefi a dinasoedd mor hawdd eu cyrraedd (o fewn pellter byr i'r drafforddd yn aml), mae hwylustod wedi dod yn ffactor canolog i arferion defnyddwyr.

Mae Consortiwm Manwerthu Prydain wedi pwysleisio pwysigrwydd adnewyddu hygyrchedd i sicrhau buddsoddiad manwerthu hirdymor. "*Weak transport links and inadequate parking provision threaten the viability of high street retailers. Expensive, remote and badly designed charging schemes and delivery restrictions deter visitors, curtail visits and stifle business potential. This, in turn, deters long term retail investment*"[14].

Mae ceir yn parhau i fod yn rhan annatod o'r ffordd rydym yn siopa. Mae hwylustod gallu parcio o fewn pellter cerdded i siopau yn cryfhau apêl datblygiadau ar gyrion trefi sydd fel arfer â meysydd parcio hygyrch, di-dâl heb fawr o gyfyngiadau. Ar y llaw arall, mae yna gyfyngiadau parcio'n aml ym meysydd parcio'r stryd fawr, mae'n rhaid talu ac nid yw'n hawdd gyrru ynddynt. Gall taliadau parcio greu refeniw i gynghorau lleol ond mae gostwng costau parcio a sicrhau ein bod yn cyfuno hynny â gwelliannau i drafnidiaeth gynaliadwy, fel llwybrau beicio a llefydd addas i gerddwyr, yn hanfodol i sicrhau stryd fawr gynaliadwy.

Gall systemau trafnidiaeth gyhoeddus gwael fod yn rhwystr i siopwyr yr 21ain ganrif hefyd. Os yw gorsafoedd rheilffordd wedi'u lleoli gryn bellter o ganol trefi heb lwybrau cerdded diogel a hygyrch neu wasanaeth bws wennol i ardaloedd siopa, ni fydd defnyddwyr yn awyddus i deithio ar y trên. Yn ogystal, mae cost tocynnau trafnidiaeth gyhoeddus, amlder gwasanaethau a chyflwr gorsafoedd bysiau'n gallu cael effaith debyg.

Mae Consortiwm Manwerthu Prydain wedi datgan bod angen cymaint o drafnidiaeth gyhoeddus o safon ag sy'n bosibl os ydym i sicrhau bod stryd fawr yn hygyrch. Mae rhwydwaith o ffyrdd effeithlon hefyd yn hanfodol ac mae'n rhaid i gyfleusterau parcio fod yn ddiogel, yn hyfyw a rhad. Mae gallu danfon nwyddau yn ganolog i economi'r stryd fawr, hyfywedd y siopau ac annibyniaeth y brandiau sy'n rhentu'r unedau.

[14] *Cyhoeddiad Consortiwm Manwerthu Prydain – 21st Century High Streets*, 2009, tud. 19.

Hygyrchedd – Siarter y Stryd Fawr

Mae'n rhaid i Siarter y Stryd Fawr gynnwys pwynt allweddol ar drafnidiaeth a fyddai'n arwain awdurdodau lleol yn eu gwaith o reoli hygyrchedd y stryd fawr.

Mae angen i'r stryd fawr gynnig amgylchedd diogel a dymunol ar gyfer siopa a chymdeithasu. Dylai ardaloedd lleol gynllunio trafnidiaeth yn ofalus i sicrhau bod y stryd fawr mor hygyrch a deniadol â phosibl. Mae angen i deuluoedd a'r genhedlaeth hŷn yn arbennig allu cael mynediad yr un mor gyfleus a diogel i'r stryd fawr ag y gallant i ddatblygiadau ar gyrion trefi.

Yn ei hadolygiad, dywedodd Mary Portas fod seilwaith trafnidiaeth wedi'i gynllunio'n wael yn gallu gwneud siopa ar y stryd fawr yn brofiad annymunol. Mae'n amlwg bod angen ystyried hygyrchedd law yn llaw â chynigion cynllunio ac adfywio.

Mae Cynghrair Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru wedi pwysleisio y dylai trafnidiaeth fod yn rhan ganolog o gynlluniau adfywio gan ddadlau y dylai gwella mynediad ar drên, bws, beic a cherdded fod yn rhan annatod o unrhyw gynllun i adfywio'r stryd fawr[15].

Mae angen ystyried hygyrchedd hefyd o fewn camau cynllunio cynnar y gwaith o adfywio'r stryd fawr, gan ystyried, er enghraifft, a oes angen rhagor o ardaloedd i gerddwyr yn unig, neu a oes angen lledu palmentydd i wneud lle i gadeiriau gwthio a chadeiriau olwyn. Mae'n rhaid ystyried mynediad i bobl anabl wrth gynllunio i adfywio'r stryd fawr.

[15] *Sewta, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011

Cynlluniau Parcio am Ddim

Rhaid annog awdurdodau lleol i weithredu cynlluniau parcio am ddim a fyddai'n denu siopwyr yn ôl i'r stryd fawr. Dylai cynlluniau parcio am ddim fod yn agwedd allweddol wrth ddatblygu'r 'Strategaeth ar gyfer y Nos' hefyd.

Mae Adolygiad Portas yn argymell y dylai ardaloedd lleol weithredu cynlluniau parcio am ddim wedi'u rheoli sy'n gweithio i'w stryd fawr nhw. Er mwyn gallu cystadlu â datblygiadau ar gyrion trefi, mae angen i'r stryd fawr gael "*flexible, well communicated parking offer*"[16].

Ers dwy flynedd bellach mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gweithredu cynllun parcio am ddim am ddwy awr yng nghanol y ddinas. Mae'r cynllun yn weithredol ym mhob maes parcio sy'n eiddo i'r cyngor (gyda chyfyngiadau ar feysydd parcio awyr agored). Mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd yn cynnig cynllun parcio a theithio am ddim yn ystod cyfnod siopa'r Nadolig.

Mae rhagor o enghreifftiau o gynlluniau parcio yn Atodiad C.

[16] *Portas Review*, Rhagfyr 2011, tud.27

Adroddiadau Parcio Blynyddol - Tryloywder

Cyflwyno gofyniad ar awdurdodau lleol i baratoi adroddiadau parcio blynyddol a rhoi cyfrif am yr holl arian sy'n dod i'r coffrau drwy daliadau parcio. Ymgynghori ar y cysyniad o 'dabl cynghrair' ar gyfer parcio yng Nghymru.

Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth i'r cyhoedd am y refeniw sy'n cael ei godi drwy daliadau parcio. Byddai angen iddynt hefyd roi cyfrif am sut maent yn gwario'r arian hwn.

Dylid annog y cyhoedd i gymryd rhan a dylai trigolion lleol gael llais yn y ffordd y caiff yr arian ei wario. Byddai'r polisi hwn yn helpu awdurdodau lleol i ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio eu cyfleusterau, i ddiweddaru ac adfywio'r gwasanaethau.

Mae Mary Portas yn argymell cyflwyno tabl cynghrair newydd ar gyfer parcio, gan raddio meysydd parcio yn ôl eu prisiau[17]. Dylai'r awdurdodau lleol fod yn agored ynghylch faint o refeniw a godir drwy daliadau parcio.

Byddai'r tabl cynghrair hwn yn sbarduno awdurdodau lleol i ail-fuddsoddi mwy o'r arian sy'n cael ei godi yn sgil parcio yn ôl i'r stryd fawr ac i gyfleusterau parcio o ansawdd da.

[17] *Portas Review*, Rhagfyr 2011

Gwelliannau trafnidiaeth cynaliadwy

Mae teithio cynaliadwy yn elfen ganolog o hygyrchedd y stryd fawr ac mae'n rhaid iddo fod yn bwynt allweddol yn Siarter y Stryd Fawr.

Er ei bod hi'n bwysig cyflwyno gwelliannau parcio yng nghanol ein trefi mae'n hanfodol darparu cyfleoedd trafnidiaeth cynaliadwy hefyd. Mae'n rhaid i strategaethau cynllunio a rheoli'r stryd fawr gynnwys llefydd ar gyfer cerddwyr a beicwyr.

Mae Sustrans Cymru wedi datgan bod "*pedestrian and cycle-friendly environments have been shown as the core around which economic growth, public health, sustainability and overall quality of life are built. It is therefore crucial that these environments are considered in any long-term development and regeneration plans*"[18].

Mae ymgyrchoedd marchnata effeithiol a chyfryngau cymdeithasol yn ddulliau defnyddiol o hyrwyddo teithio cynaliadwy. Mae trafnidiaeth gynaliadwy hefyd yn gwella'r amgylchedd siopa cyffredinol a pha mor ddeniadol yw canol y dref.

[18] *Sustrans, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.1

Cynllunio

Mae cynllunio yn rhan annatod o adfywio'r stryd fawr gan ei fod yn dylanwadu ar gyfansoddiad y stryd fawr ac yn effeithio ar ganol y dref a'r cyffiniau. Dywedodd CBI Cymru, "*a supportive planning system can greatly improve a company's ability to grow and prosper*"[19].

Mae dogfen 'Polisi Cynllunio Cymru' Llywodraeth Cymru yn darparu fframwaith polisi ar gyfer paratoi cynlluniau datblygu awdurdodau cynllunio lleol. Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn cael ei ategu gan 21 Nodyn Cyngor Technegol (TAN) ar bynciau gwahanol. Pennod 7 a Phennod 10 Polisi Cynllunio Cymru a 'TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi' yw'r adrannau o'r canllawiau cynllunio sy'n effeithio'n sylweddol ar y stryd fawr yng Nghymru.

Bydd canlyniad Bil Cynllunio Llywodraeth Cymru, a fydd yn cael ei roi ar waith yn 2015/16, yn effeithio ar bolisi adfywio'r stryd fawr. Er y bydd canlyniadau'r bil cynllunio yn bwysig iawn ar gyfer adfywio, mae angen rhoi sylw ar frys i'r stryd fawr a bydd datblygiad araf y bil cynllunio yn llesteirio unrhyw waith adfywio.

Mae cynllunio yn golygu ystyried canolfannau siopa ar gyrion trefi sydd fel arfer yn ddatblygiadau sylweddol ar safleoedd sy'n agos iawn i'r stryd fawr bresennol. Mae'r datblygiadau ar gyrion trefi yn cynnig profiad siopa hwylus gyda digon o le, a chyfleusterau parcio am ddim ac i bobl anabl yn aml. Mae datblygiadau ar gyrion trefi yn gosod llawer iawn o bwysau ar y stryd fawr sy'n methu cystadlu â chyfleustra datblygiadau newydd. Gall y system gynllunio wneud llawer i ddiogelu'r stryd fawr rhag datblygiadau ar gyrion trefi drwy fynnu dull 'stryd fawr yn gyntaf' i sicrhau bod rhaid i unrhyw ddatblygiadau newydd edrych ar safleoedd yng nghanol y dref i ddechrau, yn lle edrych ar safleoedd ar gyrion trefi'n syth.

Nid yw cynllunio yng Nghymru yn ceisio diogelu'r stryd fawr gan fod Polisi Cynllunio Cymru'n datgan y dylai awdurdodau lleol ddefnyddio prawf "cymalog" gyda chynigion manwerthu newydd er mwyn ffafrio canol trefi yn y lle cyntaf[20]. Fodd bynnag, dangosodd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes i Adfywio Canol Trefi nad yw'r ffaith bod polisi cynllunio yn ceisio diogelu canol trefi "ar bapur" yn golygu bod y polisi yn cael ei weld felly na'i gyflawni'n ymarferol"[21]. Mae datblygiadau ar

[19] *Ymateb CBI Cymru i'r ymgynghoriad cynllunio,* Chwefror 2012, tud.1
[20] *Polisi Cynllunio Cymru Pennod 10*, Chwefror 2011
[21] *Ymchwiliad y Pwyllgor Menter a Busnes,* Ionawr 2012, tud.12-13

gyrion trefi yn dal i gael eu hadeiladu er gwaethaf Polisi Cynllunio Cymru a'r prawf cymalog.

Mae'r FSB yn credu ei bod hi'n hanfodol bod Awdurdodau Cynllunio yn cael "*stronger policy guidelines from the Welsh Government to be able to withstand pressure for large developments, and preserve small indigenous businesses that enable our town centres to be vibrant and active*"[22].

Mae'n amlwg bod awdurdodau lleol yn ei chael hi'n gynyddol anodd gwrthod caniatâd cynllunio i ddatblygiadau ar gyrion trefi. Ni all awdurdodau lleol fforddio herio archfarchnadoedd mawr yn sgil y costau cyfreithiol uchel a'r adnoddau sy'n gysylltiedig. Mae'n rhaid i'r system gynllunio ystyried y pwysau gan ddatblygwyr ar gyrion trefi.

[22] *FSB*, *Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.3

‘Stryd Fawr yn Gyntaf’

Mae’n rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i nodi safleoedd datblygu ar y stryd fawr. Drwy ymgysylltu’n gadarnhaol â’r gymuned leol a gwneud asesiadau cynhwysfawr o effaith, gall awdurdodau lleol sicrhau dewis credadwy o safleoedd i ddatblygwyr ar y stryd fawr.

Mae’n amlwg nad yw’r rhagdybiaeth o blaid canol trefi i ddatblygiadau, a amlinellir yn Polisi Cynllunio Cymru, yn cael ei ddefnyddio bob amser yn ymarferol. Mae’n anodd i awdurdodau lleol wrthod cynigion am ddatblygiadau ar gyrion trefi sydd wedi’u cefnogi gan ymgynghorwyr o’r sector preifat sydd ag adnoddau da ac yn arbenigo mewn apeliadau manwerthu.

Mae’n rhaid i’r awdurdod lleol fynd ati felly i nodi a hyrwyddo safleoedd ar gyfer datblygu yng nghanol trefi.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi datgan eu bod wedi nodi safleoedd manwerthu canol tref yn eu cynlluniau datblygu. Yna, mae’r Cyngor yn crynhoi’r safleoedd gan ddarparu dewisiadau amgen dymunol y gellir eu hamddiffyn i gynigion ar gyrion trefi[23], er enghraifft Caerffili, y Coed Duon, Ystrad Mynach a Bargod. Dyma un enghraifft o arfer gorau y dylid ei ymestyn i bob cwr o Gymru.

Yn ôl Boots dylai polisi cynllunio bwysleisio’r angen i ganolbwyntio ar bolisi ‘Canol y Dref yn Gyntaf’[24] a dylai ddechrau gyda’r awdurdodau lleol yn nodi safleoedd ar gyfer datblygu.

[23] *Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili*, *Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.4

[24] *Boots, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.10

Ymchwil i Ddatblygiadau ar Gyrion Trefi

Sicrhau bod yr ymchwil a argymhellwyd gan adroddiad Pwyllgor Menter a Busnes y Cynulliad Cenedlaethol i Adfywio Canol Trefi yn cael ei gomisiynu cyn gynted â phosibl. Dyma un o argymhellion yr adroddiad, "Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu mwy o waith ymchwil ar effeithiau posibl archfarchnadoedd ar ansawdd canol trefi".[25]

Yn ôl y '*Definitive Guide to Retail and Leisure Parks'* roedd 81 o barciau manwerthu yng Nghymru yn 2012, o gymharu â 60 yn 2002[26].

Mae Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil i effeithiau datblygiadau manwerthu newydd ar ganol trefi yng Nghymru. Derbyniodd Llywodraeth Cymru y cynnig hwn; fodd bynnag, nid oes unrhyw ymchwil wedi ei gomisiynu eto.

Mae'n hanfodol bod gwaith ymchwil manwl yn cael ei wneud i effaith canolfannau siopau ar gyrion trefi er mwyn darparu gwybodaeth ac arweiniad gwell i'r system gynllunio.

[25] *Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Adfywio Canol Trefi*, Ionawr 2012, tud.5
[26] '*Definitive Guide to Retail and Leisure Parks': Trevor Wood Associates,* 2002/2012.

Cynlluniau Datblygu Lleol

Annog awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'u hanghenion penodol mewn perthynas â'r stryd fawr mewn unrhyw drafodaethau yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol Gynlluniau Datblygu Lleol cyfredol sydd, yn ôl Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru yn darparu sail dystiolaeth sy'n dangos yr angen ac yn arwain datblygiadau i ganolfannau sy'n bodoli'n barod[27].

Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw i'w hanghenion penodol mewn perthynas â'r stryd fawr yn eu Cynlluniau Datblygu Lleol ac unrhyw ganllawiau cynllunio lleol eraill. Mae'n rhaid i adfywio'r stryd fawr fod yn rhan ganolog o ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol ac unrhyw newidiadau a wneir i'r system Cynlluniau Datblygu Lleol yn y dyfodol.

Dylid annog awdurdodau lleol cyfagos i gydweithio er mwyn creu ffocws rhanbarthol ar gyfer datblygiadau.

[27] *Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.4

Stryd fawr 'defnydd cymysg'

Mae'n rhaid i ganllawiau cynllunio Cymru adlewyrchu natur newidiol y stryd fawr a dylid cynnwys hyn fel pwynt allweddol yn Siarter y Stryd Fawr.

Mae'r stryd fawr yng Nghymru o dan fygythiad yn sgil y cynnydd mewn siopau ar y we a datblygiad canolfannau siopa ar gyrion trefi. Mae adroddiad y Local Data Company wedi nodi bod gwerthiant ar-lein yn cynyddu yn sgil technoleg symudol.

Mae natur newidiol manwerthu yn golygu bod rhaid i'r stryd fawr ddatblygu cymysgedd o ddatblygiadau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd hirdymor. Mae'n rhaid i hyn fod yn egwyddor allweddol ar Siarter y Stryd Fawr.

Nid yw Polisi Cynllunio Cymru yn annog datblygiadau defnydd cymysg[28]. Fodd bynnag, mae awdurdodau lleol wedi ceisio diogelu craidd manwerthu y stryd fawr yn aml. Mae'n rhaid annog awdurdodau lleol i ddatblygu ystod o ddefnyddiau ategol yn cynnwys defnydd busnes, hamdden, tai a chymunedol. Gall tai a swyddfeydd fod yn elfen bwysig o stryd fawr lwyddiannus "as *it can create direct demand for retail and other services, as well as bringing life to areas on a permanent basis*"[29].

Mae landlordiaid yn rhan bwysig o'r stryd fawr o safbwynt datblygu defnydd cymysg gwirioneddol ac felly mae'n rhaid eu cynnwys wrth ymgysylltu â'r gymuned drwy Dîm y Dref.

[28] *Polisi Cynllunio Cymru,* Tachwedd 2011, tud.6

[29] *Cydweithfa Sgiliau Adfywio Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.6

Casgliad

UCHELGAIS, GWEITHREDU, CYFLAWNI

Mae'r stryd fawr yng Nghymru wedi gweld dyddiau gwell. Mae'r hinsawdd economaidd anodd wedi gorfodi llawer o siopau i gau gan adael adeiladau gwag sy'n dadfeilio ar hyd y stryd fawr. Yn ôl Consortiwm Manwerthu Prydain "*declining High Streets are at best unattractive, discouraging shoppers; at worst threatening*"[30].

Mae'r stryd fawr yng Nghymru yn cael trafferth i barhau'n berthnasol. Mae ymweliadau i ganol trefi wedi gostwng dros 20% yn y pum mlynedd diwethaf i fis Rhagfyr 2010[31]. Mae cyfraddau siopau gwag Cymru ar gyfartaledd yn uwch na chyfartaledd y DU ac mae cyfraddau dechrau busnes yn cyflwyno darlun yr un mor bryderus. Mae'n amlwg bod y stryd fawr yn wynebu heriau sylweddol a bod angen gweithredu ar frys i atal dirywiad pellach.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld stryd fawr brysur, gyda busnesau lleol ffyniannus a chyfraniad cadarnhaol gan y gymuned. Mae'r ddogfen hon wedi amlinellu cynigion polisi allweddol ar gyfer rheoli'r stryd fawr, ardrethi busnes, hygyrchedd a chynllunio.

Mae'n rhaid rheoli'r stryd fawr ar sail egwyddorion allweddol a amlinellwyd yn 'Siarter y Stryd Fawr'. Dylid cydgysylltu pethau'n well drwy Reolwyr Canolfan Trefi gorfodol a gyflogir gan bob awdurdod lleol. Bydd clustnodi Gweinidog/Dirprwy Weinidog i fod yn gyfrifol am y stryd fawr yn darparu dolen gyswllt ac yn gwella cydgysylltiad rhwng adrannau. Mae'n rhaid i ni fynd i'r afael â photensial economi'r nos drwy gynnal ymgynghoriad eang a datblygu strategaeth.

Byddwn yn cadw ein hadduned a wnaed yn ein maniffesto yn 2011 i gefnogi busnesau bach a chanolig, gan ddatgloi eu potensial drwy eu heithrio o orfod talu ardrethi busnes er mwyn iddynt allu buddsoddi eu helw mewn cynhyrchion newydd, marchnadoedd newydd neu gyflogi staff newydd. Byddwn hefyd yn sicrhau tegwch yn y system ardrethi busnes drwy gynnal ymgynghoriad manwl ar rannu lluosydd Cymru yn fusnesau 'bach' a 'mawr'. Rydym hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â siopau elusen a'r problemau sy'n wynebu awdurdodau lleol wrth roi cymorth caledi.

[30] *Consortiwm Manwerthu Prydain, 21st Century High Street*, 2009, tud.6

[31] *Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes,* (fersiwn Saesneg yn unig) Medi 2011, tud.11

Mae hygyrchedd yn fater allweddol ar gyfer adfywio'r stryd fawr ac mae'n rhaid annog awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phryderon ynghylch trafnidiaeth, i weithredu cynlluniau parcio am ddim ac i fod yn dryloyw am y refeniw a godir. Mae trafnidiaeth gynaliadwy a thrafnidiaeth i bobl anabl yn elfennau allweddol o hygyrchedd y stryd fawr hefyd.

Mae'n rhaid rhoi sylw brys i gynllunio hefyd; ni all y stryd fawr aros hyd nes y cyflwynir bil cynllunio yn 2015/16. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol fynd ati i nodi safleoedd datblygu ar y stryd fawr er mwyn ceisio gwrthdroi'r duedd o ddatblygu ar gyrion trefi. Mae'n rhaid comisiynu ymchwil allweddol i gael gwell dealltwriaeth o effaith arferion siopa newidiol ac mae'n rhaid i ganllawiau cynllunio adlewyrchu hyn gan fod defnydd cymysg cynyddol yn hanfodol ar gyfer sicrhau dyfodol y stryd fawr.

Mae gan y Ceidwadwyr Cymreig gynllun cynhwysfawr a syniadau uchelgeisiol ar gyfer adfywio'r stryd fawr. Nod y cynigion polisi allweddol hyn yw ysgogi trafodaeth a sicrhau bod adfywio'r stryd fawr yn dod yn brif flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Mae'n rhaid i ni weithredu yn awr i achub y stryd fawr a chyda'r weledigaeth strategol a amlinellwyd yn y papur polisi hwn, credwn y gall y stryd fawr yng Nghymru fod yn economi ffyniannus ar gyfer siopwr yr 21ain ganrif.

Atodiad A - Llyfryddiaeth

Adolygu Ardrethi Busnes Cymru: Cymell Twf, Mai 2012

Adolygiad o'r Polisi Ardrethi Busnes – Cais am Dystiolaeth Crynodeb o'r Ymatebion, Mawrth 2012

Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Adroddiad Adfywio Canol Trefi, Ionawr 2012

Ymateb y Gweinidog i Ymgynghoriad Pwyllgor Menter a Busnes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar Adfywio Canol Trefi, Ionawr 2012

The Portas Review: An Independent review into the future of our high streets, Rhagfyr 2011

Experian Marketing Services, Town Centre Futures 2020, Medi 2012

Consortiwm Manwerthu Prydain (BRC) 21st Century High Street, 2009

Local Data Company: 'Too Many Shops', Medi 2012

Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Bro Morgannwg, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cymdeithas y Rheolwyr Canol Trefi, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Comisiwn Dylunio Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Consortiwm Manwerthu Prydain, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Gwasanaeth Cynllunio Cyngor Caerdydd, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Boots, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Dinas a Sir Abertawe, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Ardal Gwella Busnes Abertawe, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Sir Penfro, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Sir y Fflint, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cyngor Dinas Casnewydd, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Busnes yn y Gymuned, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Ffederasiwn Busnesau Bach, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Siambr Fasnach Arberth, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Sewta, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

Sustrans, Ymateb i Ymgynghoriad y Pwyllgor Menter a Busnes, Medi 2011

'Definitive Guide to Retail and Leisure Parks': Trevor Wood Associates, 2002/2012.

BRC Springboard monitor, Awst 2012

Ffederasiwn Busnesau Bach, Arolwg Cymru, Chwefror 2012

Ffederasiwn Busnesau Bach, Maniffesto Etholiadol, 2011

Llywodraeth Cymru, Canllawiau ar Ardrethi Annomestig, 2004

Cymdeithas Parcio Prydain, Ymateb i ymgynghoriad y Portas Review, Chwefror 2012

CBI, ymateb i ymgynghoriad cynllunio Llywodraeth Cymru, Chwefror 2012

Polisi Cynllunio Cymru: Pennod 7 Cynnal yr Economi, Chwefror 2011

Diwygio Pennod 7 Polisi Cynllunio Cymru – Cynnal yr Economi, dogfen ymgynghori, 28 Tachwedd 2011

TAN 4: Manwerthu a Chanol Trefi, 1996

Consortiwm Manwerthu Cymru, Welsh Retail: Serving Our communities, Mehefin 2012

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau/Genecon and Partners, Understanding High Street Performance, 2011

HWB Cymru, Adroddiad i Grŵp Gorchwyl a Gorffen Ardrethi Busnes, Ebrill 2012

Atodiad B

Tabl 1.1- Lluosydd ardrethi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

	Lluosydd 2012/3
Cymru	Y cyfan: 45.2c
Yr Alban	Bach: 45.0c Mawr (gwerth ardrethol dros £35,000: 45.8c Archfarchnadoedd: 55.1c
Lloegr	Bach: 45.0c Mawr: 45.8c
Gogledd Iwerddon	Rhanbarthol: 31.4c Ac Ardrethi Ardal (yn amrywio o 16.7c i 30.3c)

Tabl 1.2 – Cymru sydd â'r ardrethi busnes isaf ar gyfer archfarchnadoedd mawr, ac maent yn llawer is na'r Alban. Yn ôl ffigurau Adolygiad Ardrethi Busnes Cymru disgwylir i archfarchnad fawr yng Nghymru dalu £22,560 yn llai o ardrethi yng Nghymru o gymharu â siop gyda'r un gwerth ardrethol yn Lloegr. Bydd yr arbediad yn fwy o gymharu â'r Alban, sef £334,640. Bydd archfarchnad fechan yng Nghymru yn elwa tua £3,000 y flwyddyn o dan luosydd Cymru o gymharu â Lloegr, a £44,500 o gymharu â'r Alban[32].

Gwerth Ardrethol (£oedd)	Cymru	Lloegr	Yr Alban
6,000	2,712	2,700	2,700
12,000	5,424	5,400	5,400
35,000	15,820	16,030	16,030
500,000	226,000	229,000	229,000
Archfarchnad (£500,000)	226,000	229,000	270,500
Archfarchnad fawr (e.e. £3,760,000)	1,699,520	1,722,080	2,034,160

[32] *Adolygiad Ardrethi Busnes Cymru,* Mai 2012, tud.48

Rhannu Lluosydd Cymru:

- Gostwng yr ardreth busnes i 45.0 i fusnesau bach (a ddiffinnir fel rhai â gwerth ardrethol o £25,000 neu is). Mae'r lluosydd hwn yn cyd-fynd â'r gyfradd isel yn Lloegr a'r Alban.
- Ei godi i 45.7 i fusnesau "mawr" gyda gwerth ardrethol o £25,001 ac uwch. Drwy bennu'r lluosydd mawr ar 45.7 byddai busnesau mawr yng Nghymru'n dal i dalu llai o ardrethi na Lloegr a'r Alban ble mae'r lluosydd wedi'i osod ar 45.8.

Mae amcangyfrifon yn amlinellu y byddai busnesau â gwerth ardrethol o £25,000 ac is yn talu rhwng £600,000 a £700,000 yn llai mewn ardrethi busnes mewn blwyddyn ariannol ar ôl tynnu rhyddhad busnesau bach.

Byddai'r swm o ryddhad ardrethi busnes bach a delir bob blwyddyn ariannol gan Lywodraeth Cymru yn lleihau rhwng £400,000 a £600,000.

Byddai'r newid amcangyfrifiedig mewn ardrethi busnes net (llai rhyddhad) a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i newid y lluosydd rhwng £0 a gostyngiad o £300,000 bob blwyddyn ariannol.

Byddai creu lluosydd busnes mawr o 0.457 i fusnesau â gwerth ardrethol o £25,001 ac uwch yn arwain at gynnydd yn swm yr ardrethi busnes a fyddai'n cael eu casglu, tua £9.4 miliwn y flwyddyn.

Atodiad C – Mentrau trafnidiaeth lleol

Opsiynau	
Parcio a'r rhwydwaith ffyrdd	• Meysydd parcio cyfnod byr, canolig a hir. • 'Dyddiau am ddim', boreau / prynhawniau. Adegau pan mae pobl yn cael parcio am ddim neu'n rhatach. • Mwy o gyfleusterau parcio a theithio i gadw tagfeydd o'r stryd fawr. • Bysiau am ddim o barciau busnes i annog gweithwyr i ddod i'r stryd fawr yn ystod amser cinio. • Apps canol tref am ddim – lleoliad meysydd parcio / gorsafoedd bysiau. • Ailfuddsoddi'r arian a gafwyd o daliadau parcio i wella ansawdd a nifer y llefydd parcio.
Trafnidiaeth Gyhoeddus	• Cynigion ar ddyddiau penodol. Cymhellion i bobl fynd ar y bws – e.e. 'dydd Mawrth rhad'. • Cardiau bws sy'n cynnig gostyngiad. • Llwybrau bysiau blaenoriaeth – byddai galluogi bysiau i deithio ar draws neu drwy ardaloedd i gerddwyr yn golygu bod modd i deithwyr fynd i ganol y dref.
Gorsafoedd rheilffordd	• Mewn canol trefi lle mae yna gysylltiad rheilffordd dylai ymwelwyr gael argraff gyntaf dda o'r dref. Dylid gosod arwyddion clir i ganol y dref a chysylltiadau cerdded da.
Beicio	• Llefydd diogel i gadw beiciau. • Gwelliannau i lonydd beicio canol y dref.
Cysylltiadau trafnidiaeth	• Bysiau gwennol am ddim i ganol y dref.
Siopau yn agor yn hwyr – parcio am ddim min nos	• Gallai siopau aros ar agor yn hwyrach er mwyn i bobl sy'n gweithio yn ystod y dydd allu dod i'r dref min nos. Gallai'r meysydd parcio fod am ddim yn y nos neu'n rhatach. (E.e. Mae maes parcio St David's 2 yng Nghaerdydd yn codi £2 ar ôl 5pm yn lle'r gyfradd arferol yn ôl yr awr, gyda'r siopau ar agor tan 8pm ar ddyddiau'r wythnos. • Cysylltu economi'r dydd ac economi'r nos.

Astudiaethau Achos

Astudiaethau Achos Parcio	
Caer – 'Free after 3'	**Problem** - roedd nifer yr ymwelwyr yn gostwng ar ôl 3pm. **Ateb** – Gallu parcio am ddim mewn dau faes parcio mawr ar ôl 3pm bob dydd. Mae nifer yr ymwelwyr wedi gwella ynghyd â'r cysylltiad rhwng busnesau lleol a'r tîm rheoli canol tref.
Warwick – 'Free ride Friday'	**Problem** – Gostyngiad mewn parcio ar y stryd fawr. **Ateb** – Gofynnwyd i gyflogwr lleol mawr ar gyrion y dref i ddarparu bws am ddim amser cinio dydd Gwener i ddod â gweithwyr i ganol y dref i fwyta a siopa. Cafodd y cynllun 'Free ride Friday' ei hyrwyddo gan y cwmni dan sylw. Arweiniodd hyn at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr a bu'n hwb i'r gweithwyr eu hunain. Mae'r cwmni nawr yn talu am y gwasanaeth bws.
Barnet – Parcio tymhorol	**Problem** – mynediad rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. **Ateb** – Gostyngiad dros dro ym mhris parcio. Cafodd cost parcio drwy'r dydd mewn meysydd parcio oddi ar y stryd ei gyfyngu i £1 dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd. Dangosodd dadansoddiad fod parcio tymor byr wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y cyfnod.
Westminster - ap parcio	Mae Cyngor Westminster wedi lansio ap am ddim sy'n darparu gwybodaeth fyw am y llefydd parcio sydd ar gael. Mae synwyryddion mewn cilfachau parcio yn rhoi gwybod i yrwyr am y llefydd hyn. Gall gyrwyr dalu am barcio gyda'u ffôn hefyd.
Cynllun Parcio Disg Stryd Fawr Yarm	Mae'r cynllun yn caniatáu i bobl barcio am hyd at 2 awr rhwng 8am-6pm, o ddydd Llun i ddydd Sadwrn. Gellir cael y disgiau o siopau a mannau eraill am 50c. Ar ôl prynu'r disg, gellir ei ddefnyddio cymaint ag sydd angen. Mae angen gosod amser cyrraedd ar y disg a'i arddangos ar ddangosfwrdd y car. Mae'n rhaid dychwelyd o fewn y terfyn o 2 awr.